PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# COFNODION y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd
# 24 Ionawr 2024, 10.30am i 11.30am

## Yn bresennol ac ymddiheuriadau

| Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd | |
|---|---|
| **Dyddiad:** 24 Ionawr 2024; 10.30am – 11.30am | **Lleoliad: Ar-lein drwy Teams** |
| **Trefnwyd gan:** Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru, a Jane Dodds AS | |
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Jane Dodds AS | Senedd Cymru |
| Sioned Williams AS | Senedd Cymru |
| Phoebe Jenkins | Senedd Cymru |
| Sean O'Neill | Plant yng Nghymru |
| Louise O'Neill | Plant yng Nghymru |
| Linda Hawkins | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Rhian Smith | Y Rhwydwaith Maethu |
| Amy Bainton | Barnardo's Cymru |
| Mark Carter | Barnardo's Cymru |
| Lisa Roberts | Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant |
| Marianne Mannello | Chwarae Cymru |
| Liz Gregory | Parent Infant Foundation |
| Eleri Griffiths | Swyddfa Nerys Fychan AS |
| Catrin Glyn | Ymddiriedolaeth y Gofalwyr |
| Cath Lewis | Cŵn Tywys Cymru |
| Cecile Gwilym | Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) |
| Helen Perry | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru |
| Hannah Williams | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Samantha Baron | |
| Tina Foster | TGP Cymru |
| Sian Thomas | Senedd Research |
| | |

**Ymddiheuriadau**
Llyr Gruffydd AS
Dave Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Daljit Kaur Morris, NYAS Cymru
Dave Goodger, Blynyddoedd Cynnar Cymru
Alex Williamson, Wave Trust
Mark Jones, Higher Plain Research & Education Ltd
Becky Saunders, Foundations

## 1. Croeso a Phresenoldeb/Ymddiheuriadau

Croesawodd Jane Dodds AS a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol hwn bawb i'r cyfarfod. Mae rhestr lawn o'r bobl a oedd yn bresennol ac ymddiheuriadau ynghlwm.

Aeth y Cadeirydd drwy bob un o'r pedair thema a drafodwyd mewn cyfarfodydd yn ystod 2023 – Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal; y 1000 Diwrnod Cyntaf; profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a Thlodi Plant a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am bob un:

- Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal – dyma fydd thema heddiw a bydd cyflwynwyr o'r llynedd yn rhoi diweddariad llafar
- Y 1000 Diwrnod Cyntaf – mae'r pwnc hwn yn gorgyffwrdd â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bydd digwyddiad yn cael ei gynnal yn y Neuadd yn y Senedd yn ystod bore 1 Hydref 2024. Byddwn yn gweithio gyda Hyb ACE Cymru ac asiantaethau allweddol eraill i ddatblygu rhaglen o siaradwyr, a gellir anfon unrhyw argymhellion eraill mewn e-bost at Phoebe/Louise. Byddwn hefyd yn chwilio am enghreifftiau ymarferol o arferion sy'n ystyriol o drawma er mwyn sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru. Rydym eisiau ymrwymiad clir i ymgorffori Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn agenda cyflawni ymarferol Cymru
- Tlodi Plant – mae angen ailedrych ar hyn a bydd cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi yn cael ei drefnu
- Deddf Plant newydd arfaethedig – bydd y ddau Grŵp Trawsbleidiol (ar Blant a Theuluoedd a Phlant yn ein Gofal) yn dod at ei gilydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ddatblygu strategaeth ar gyfer y dyfodol. Y nod yw ei chynnwys ym maniffestos yr holl bleidiau gwleidyddol ar gyfer 2026

## 2. Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal ledled Cymru – diweddariad

Croesawodd y Cadeirydd nifer o siaradwyr a gyflwynodd yng nghyfarfod Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal yn 2023 gan eu gwahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau eu sefydliad sy'n ceisio sicrhau bod plant yn cael eu cadw gyda'u teuluoedd neu eu teuluoedd estynedig fel nad ydynt yn cael eu rhoi mewn gofal.

**Amy Bainton a Mark Carter, Barnardo's Cymru**

Rhoddodd Mark yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghasnewydd a Sir Fynwy. Mae gwasanaeth Casnewydd yn canolbwyntio ar 'Baby and Me' ac mae'n parhau i weithredu'n effeithiol. Mae gweithiwr tad hefyd wedi cael ei recriwtio i'r gwasanaeth. Mae llawer o waith yn cael ei wneud gyda'r Bwrdd Iechyd

lleol, yn benodol gwaith gydag Ysbyty'r Grange yng Nghwmbrân. Mae Cynadledda Teulu a Grŵp hefyd yn ganlyniad cadarnhaol arall, lle mae teuluoedd yn cael llais.

Mae 'Gwasanaeth Ymateb Cyflym' Barnardo's Cymru wedi datblygu lawer yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda thîm bach o weithwyr cymorth ymroddedig yn yr hyb diogelu, lle maent yn ymateb ar unwaith i fethiant achosion neu argyfyngau.

Yn Sir Fynwy, mae'r gwasanaeth 'Families Together' yn gweithio i gefnogi teuluoedd a phobl ifanc sy'n byw o dan Orchymyn Gofal, neu orchymyn gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Mae anghysondebau ledled y wlad, ond mae Barnardo's yn gallu cefnogi awdurdodau lleol sy'n helpu i sicrhau parhad.

Rhoddodd Amy ddiweddariad mwy cyffredinol am Barnardo's ledled y wlad, a phwysleisiodd yr effaith bosibl ar gyfer y dyfodol oherwydd y rhagolwg economaidd sydd ohoni. Mae llawer o'u gwasanaethau, a sefydlwyd ar gyfer ymyrraeth ac atal cynnar, bellach yn gweithredu ar ffiniau gofal gan fod mwy o angen yn cynyddu'n gyson. Mae'r cynnydd mewn iechyd meddwl gwael a chostau byw ac ati yn cael effaith enfawr ac mae'n ymddangos bod y sefyllfa'n gwaethygu.

Mae cynaliadwyedd yn broblem enfawr gan nad yw nifer o wasanaethau yn gwybod ble fyddan nhw yn y dyfodol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau llym, byrdymor oherwydd argyfwng cyllido.

**Cam i'w gymryd:**

**Cytunodd Jane Dodds i ysgrifennu at y Gweinidog ynglŷn â chynaliadwyedd a chyllid yn y dyfodol.**

## 3. <u>Diweddariad NSPCC Cymru - Cecile Gwilym</u>

Cadarnhaodd Cecile ymhellach yr angen i fuddsoddi mewn gwasanaethau ymyrraeth gynnar, mae llawer o leoedd mewn argyfwng, ac mae mwy o risg ar rieni a theuluoedd. Mae'r angen yn fawr, yn enwedig ym maes iechyd meddwl amenedigol ac mae'r NSPCC yn galw'n gyson i'r Bwrdd Iechyd roi adnoddau i wasanaethau. Rhaid inni wneud y canlynol:

- Blaenoriaethu gwasanaethau ataliol yn gyson
- Cydweithio ar y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Mae angen i'r gwaith hwn gyflymu, mae angen llawer o fentrau mewn polisi ond mae bwlch wrth eu gweithredu
- Parhau i wrando ar yr hyn y mae plant, pobl ifanc a babanod yn ei ddweud wrthym
- Mae angen i ymyrraeth gynnar fod wrth wraidd yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud, ac mae pryder mawr ein bod yn symud oddi wrth hyn ac ni allwn weld hynny'n cael ei golli

## 4. <u>Diweddariad y Rhwydwaith Maethu - Rhian Smith</u>

Mae’r prosiect Step Up Step Down yn enghraifft dda iawn o weithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Penfro. Mae’r gwaith yn cael ei ddatblygu o fewn y tîm gwaith cymdeithasol ac mae tri gofalwr maeth gwych bellach yn cymryd rhan.

Mae’r rhaglen yn cynnig cymorth tymor canolig a hirdymor, yn ogystal â chymorth mentora i ofalwyr maeth a seibiannau byr i deuluoedd.

Wrth i’r rhaglen fynd yn ei blaen, gobeithiwn y bydd gennym rai enghreifftiau addawol i’w rhannu.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi’i sicrhau am 3 blynedd a’r gobaith yw y bydd yn cael ei estyn.

## 5. <u>Diweddariad Project Unity, NYAS Cymru - Helen Perry</u>

Mae’r prosiect hwn yn gweithio gyda dynion a menywod ifanc rhwng 11 a 25 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal mewn amgylchedd eirioli. Rydym yn cynnig sesiynau un-i-un a gwasanaethau gofal cofleidiol.

Mae llawer o’r gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yng Nghymru.  Y peth da yw ein bod yn cael llawer o hunanatgyfeiriadau, ar adeg beichiogrwydd, gan eu bod wedi clywed y gallant gael llais yn y system. Hefyd mae rhieni’n cyfeirio eu ffrindiau, felly mae hyn yn gyflawniad enfawr. Hefyd oherwydd yr ymyrraeth gynnar, mae llawer ohonynt yn mynd â’u babanod adref.

Dyma’r problemau i ni:

- Cyllid – mae’n dod i ben yn 2025 – beth sy’n digwydd wedyn a phwy fydd yn gweithio i gefnogi’r bobl ifanc hyn?
- Mae atgyfeiriadau gan weithwyr ieuenctid a gweithwyr iechyd proffesiynol yn dod yn rhy hwyr
- Mewn dros 98 y cant o atgyfeiriadau (pob rhiant sydd â phrofiad o fod mewn gofal), mae’r babanod yn mynd ar y gofrestr amddiffyn plant yn y pen draw. Ydyn ni’n paratoi ein plant a’n pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ar gyfer bod yn rhiant yn gywir?
- Mae’n bendant yn loteri cod post.  Mae nifer o Awdurdodau Lleol yn dal i fod yn amharod i gymryd risg ac am fynd â’r babanod rhag ofn
- Mae babanod yn cael eu cymryd yn yr ysbyty. Mae rhai rhieni’n cael gwybod y byddan nhw’n cael eu cefnogi, ond os caiff y babi ei eni’n gynnar a does dim cefnogaeth yn ei lle, mae’r babi yn cael ei gymryd
- Mae tai yn parhau i fod yn broblem
- Taliad Incwm Sylfaenol – mae llawer iawn o adolygiadau cymysg ynghylch a yw’n gweithio

**Camau i’w cymryd**:

**Barnardo's, NSPCC a NYAS Cymru i anfon rhai ffeithiau a ffigurau o ran canlyniadau at Jane. Phoebe/Louise wedyn i ddatblygu llythyr ynglŷn â phryderon o ran cyllid gwasanaethau ar ffiniau gofal a'i anfon at y Gweinidog. Angen rhywfaint o atebolrwydd a thargedau ar gyfer LIC. Llythyr i'w gymeradwyo gan bawb cyn ei anfon.**

**Jane i ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol, yn yr wyth Awdurdod Lleol yn ei rhanbarth, i sicrhau eu bod yn gwybod am Project Unity. Heledd Fychan AS i gefnogi hyn. Tîm Jane i ddrafftio llythyr a'i rannu â swyddfa Heledd Fychan. Llythyr i'w anfon at bob AS hefyd.**

**Jane i ddrafftio llythyr, gyda chefnogaeth gan sefydliadau sy'n aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol, at y Prif Weinidog erbyn hyn, ac ymgeiswyr newydd posibl, ynghyd â Jane Hutt a Jenny Rathbone, yn galw am Weinidog babanod, plant a phobl ifanc yn y cabinet nesaf. Byddai cefnogaeth drawsbleidiol yn ffafriol. Roedd aelodau o'r grŵp a fynegodd eu cefnogaeth yn cynnwys:**

Chwarae Cymru, NSPCC Cymru, Young Foundations, NYAS Cymru, Plant yng Nghymru, Barnardo's Cymru, Cŵn Tywys Cymru, a'r Rhwydwaith Maethu a Choleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (y ddau i'w cadarnhau).

## 6. Trafodaeth

Mae Tina Foster, Tros Gynnal Plant Cymru – yn cynnal cyfarfodydd grŵp teuluol y mae'r fframwaith adferol yn sail iddynt, gydag atgyfeiriadau gan awdurdodau lleol. Mae 90+% o'r adborth yn gadarnhaol ac yn effeithiol iawn. **Tina i anfon tystiolaeth at Jane a all gynnwys yr wybodaeth hon yn y llythyr at awdurdodau lleol (fel y crybwyllwyd uchod)**

Cecile Gwilym, NSPCC Cymru – mae angen ymrwymiad cyllidol, atebolrwydd a thargedau gan Lywodraeth Cymru. Mae angen inni sicrhau bod cyllid yn cyrraedd plant mewn gwirionedd. Mae angen ymdrech arnom am fwy o dryloywder, cerrig milltir a thargedau i weld pryd a sut mae pethau'n cael eu cyflawni. Siaradodd Jane am y diffyg targedau yn ei haraith ar 23.01.24.

Amy Bainton, Barnardo's Cymru – o ran diwygio radical a gwasanaethau ar ffiniau gofal, a allwn ni ofyn am ddiweddariad ar hyn gan y Gweinidog? Cadarnhaodd Jane ei bod wedi gofyn y cwestiwn i'r Prif Weinidog ar 23.1.24 ar elw mewn gofal, ond mae'r cynnydd a addawyd wedi arafu. Cadarnhaodd Sian Thomas o Ymchwil y Senedd fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dod yn ôl i edrych ar yr agenda hon

Sian Thomas, Ymchwil y Senedd - lansiodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad newydd o'r enw "Plant sydd ar yr Ymylon" gan ganolbwyntio ar blant coll a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r ystadegau'n hwyr o ran eu cyhoeddi. Hefyd mae adroddiad yn cael ei ddrafftio ar y gyllideb ddrafft ac mae tystiolaeth yn cael ei chymryd gan Weinidogion ar hyn o bryd. Gall rhanddeiliaid barhau i godi'r materion hyn, maent yn parhau i fod ar eu hagendâu. Yn edrych ar ddiwygio Arolygiaeth Gofal Cymru yn radical mewn cyfarfod ym mis Mawrth.

Jane – **os oes gan unrhyw aelod o'r grŵp ragor o awgrymiadau am yr hyn y maent am ei wneud, a fyddech cystal ag anfon e-bost at Phoebe? Helen Perry, Project Unity, i gyflwyno i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yn ein Gofal.**

**7. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dim.

24 Ebrill 2024, 10.30am i 11.30am, hybrid – cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi

Gweddill y dyddiadau ar gyfer 2024 i'w cadarnhau